



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Taflen Wybodaeth

Emboleiddio'r Rhydsweli Prostatig (PAE)

Adran Radioleg

Mae'r daflen hon yn rhoi peth gwybodaeth ychwanegol i gleifion am Emboleiddio'r Rhydsweli Prostad (PAE).

Mae'r daflen hon yn rhoi gwybodaeth i chi am Emboleiddio'r Rhydsweli Prostad (PAE). Esbonia beth sydd dan sylw a beth yw'r risgiau posibl. Nid ei bwriad yw cymryd lle trafodaeth wybodus rhyngoch chi a'ch meddyg, ond gall weithredu fel man cychwyn ar gyfer trafodaethau o'r fath. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y driniaeth, gofynnwch i'r meddyg sydd wedi eich cyfeirio chi neu'r adran sy'n mynd i'w pherfformio.

Beth yw Emboleiddio'r Rhydsweli Prostad (PAE)?

Mae PAE yn ffordd an-lawfeddygol o drin prostatid chwyddedig a thrafferthus trwy atal y rhydsweliâu sy'n bwydo'r chwarran, a gwneud iddi grebachu. Fe'i perfformir gan radiolegydd ymyriadol (llawfeddyg a arweinir gan ddelwedd), yn hytrach nag wrolegydd, ac mae'n ddewis amgen i TURP (echdoriad transwrethrol y prostatid) neu lawdriniaethau prostatid eraill, gan gynnwys llawfeddygaeth laser. Perfformiwyd PAE gyntaf yn 2009, ac ers hynny mae dros 900 o ddynion wedi cael y driniaeth, yn bennaf ym Mhortiwgal, Brasil ac UDA. Cymeradwywyd PAE fel triniaeth ar gyfer prostatid chwyddedig anfael (BPE) gan NICE yn 2018 ac mae'n un o'r nifer o opsiynau triniaeth sydd ar gael ar gyfer y cyflwr hwn.

Pam efallai y bydd angen i mi gael Emboleiddio'r Rhydsweli Prostad?

Bydd profion eraill a gawsoch wedi dangos eich bod yn dioddef o brostadid chwyddedig, a bod hyn yn achosi symptomau sylweddol i chi. Dylai eich wrolegydd a'ch meddyg teulu fod wedi dweud popeth wrthyfych am y ffyrdd o ddelio â hyn, gan ddechrau gyda meddyginiaeth fel rheol. Yn flaenorol, triniwyd y symptomau prostatig mwyaf difrifol trwy lawdriniaeth TURP. Yn eich achos chi, penderfynwyd bod emboleiddio yn driniaeth amgen sy'n werth ei hystyried.

Pwy wnaeth y penderfyniad?

Bydd yr Wrolegydd a'r Radiolegydd Ymyriadol wedi trafod eich sefyllfa, ac o'r farn y byddech eisiau ystyried emboleiddio o dan ofal y Radiolegydd Ymyriadol. Fodd bynnag, mae'n bwysig iawn bod eich barn wedi cael ei hystyried.

Os nad ydych eisiau i'r PAE gael ei gynnal ar ôl trafodaeth lawn â'ch meddygon, yna rhowch wybod i ni.

Pwy fydd yn rhoi'r driniaeth?

Meddygon sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig, o'r enw radiolegwyr ymyriadol (llawfeddygon a arweinir gan ddelwedd). Mae gan radiolegwyr ymyriadol arbenigedd nodedig mewn defnyddio offer pelydr-x, a hefyd i ddehongli'r delweddau a gynhyrchir. Mae angen iddynt edrych ar y delweddau hyn wrth gyflawni'r driniaeth. O ganlyniad, radiolegwyr ymyriadol yw'r bobl sydd wedi'u hyfforddi orau i fewnosod nodwyddau a chathetrau mân mewn pibellau gwaed, trwy'r croen, a'u gosod yn gywir.

Mae'r weithdrefn yn digwydd mewn ystafell pelydr-x arbenigol o'r enw swît/theatr angio.

Sut ydw i'n paratoi ar gyfer Emboleiddio'r Rhydsweli Prostad?

Mae angen i chi gael eich derbyn i'r ysbyty fel achos dydd fel arfer. Mae'n debyg y gofynnir i chi beidio â bwyta am bedair awr ymlaen llaw, er efallai y dywedir wrthy ch ei bod yn iawn yfed rhywfaint o ddŵr. Efallai y byddwch yn derbyn tawelydd i leddfu pryder. Gofynnir i chi wisgo gŵn ysbyty gan fod y driniaeth yn gyffredinol yn cael ei chynnal trwy ddefnyddio'r rhydsweli yn yr afl neu'r arddwrn. Bydd cathetr wrinol yn cael ei fewnosod yn yr uned achos dydd cyn y driniaeth a bydd yn aros yn ei le am 48 awr ar ôl y driniaeth. Mae hyn er mwyn sicrhau nad ydych chi'n cael unrhyw broblemau wrth basio wrin yn ystod ac yn syth ar ôl y driniaeth.

Os oes gennych unrhyw alergeddau, rhaid i chi roi gwybod i'ch meddyg. Os ydych chi wedi ymateb yn flaenorol i gyfrwng cyferbyniad, er enghraifft ar ôl derbyn llifyn ar gyfer sganio CT, yna mae'n rhaid i chi ddweud wrthym am hyn.

Beth sy'n digwydd yn ystod Emboleiddio'r Rhydsweli Prostad?

Byddwch yn gorwedd ar y bwrdd pelydr-x, ar wastad eich cefn. Mae angen rhoi nodwydd i mewn i wythien yn eich braich, fel y gallwch gael tawelydd a chyffuriau lladd poen os oes angen. Efallai y bydd gennych ddyfais fonitro ynghlwm wrth eich brest a'ch bys hefyd, ac efallai y rhoddir ocsigen i chi trwy diwbiau bach yn eich trwyn. Bydd y radiolegydd ymyriadol yn cadw popeth yn ddi-haint a bydd yn gwisgo gŵn theatr a menig llawdriniaeth. Bydd y croen ger y pwynt mewnosod, yr afl neu'r arddwrn, yn cael ei swabio ag antiseptig a'i orchuddio â gorchudd theatr.

Bydd y croen a'r meinweoedd dyfnach dros y rhydsweli yn yr afl neu'r arddwrn yn cael eu anaestheiddio ag anesthetig lleol, ac yna bydd nodwydd yn cael ei rhoi yn y rhydsweli hon. Unwaith y bydd y radiolegydd ymyriadol yn fodlon bod hon wedi'i lleoli'n gywir, rhoddir gwifren dywys trwy'r nodwydd, ac i mewn i'r rhydsweli hon. Yna tynnir y nodwydd yn ôl gan ganiatáu gosod tiwb plastig tenau iawn, o'r enw cathetr, dros y wifren ac i mewn i'r rhydsweli hon.

Bydd y radiolegydd ymyriadol yn defnyddio'r offer pelydr-x i sicrhau bod y cathetr a'r wifren wedyn yn cael eu symud i'r safle cywir, i'r rhydswelïau eraill sy'n bwydo'r prostad. Mae'r rhydswelïau hyn yn eithaf bach ac yn amrywiol iawn. Chwistrellir llifyn pelydr-x arbennig, o'r enw cyfrwng cyferbyniad, i lawr y cathetr i'r rhydswelïau prostad hyn, a gallai hyn roi teimlad poeth i chi yn y pelfis. Yna gall y radiolegydd ymyriadol berfformio techneg sgan CT lle mae'r tiwb pelydr-x yn cylchdroi o amgylch y bwrdd, ac yna caiff y delweddu eu prosesu gan gyfrifiadur pwerus i sicrhau nad oes unrhyw gysylltiadau rhydsweliol annormal. Ar ôl i'r cyflenwad gwaed prostad gael ei adnabod, chwistrellir hylif sy'n cynnwys miloedd o ronynnau bach trwy'r cathetr i'r rhydswelïau bach hyn sy'n maethu'r prostad. Mae hyn yn siltio'r pibellau gwaed bach ac yn eu hatal fel bod y prostad yn cael ei amddifadu o'i gyflenwad gwaed.

Mae angen rhwystro'r rhydswelïau prostatig dde a chwith fel hyn. Yn aml gellir gwneud y cyfan o un twll rhydsweli, ond weithiau mae angen dau. Ar ddiwedd y driniaeth, tynnir y cathetr yn ôl, a rhoddir pwysau i atal unrhyw waedu.

A fydd yn brifo?

Pan fydd yr anesthetig lleol yn cael ei chwistrellu, bydd yn pigo am gyfnod byr, ond bydd hyn yn gwisgo i ffwrdd yn fuan. Efallai y bydd gennych glais bach ar ôl y driniaeth.

Pa mor hir fydd yn ei gymryd?

Mae pob claf yn wahanol, ac nid yw bob amser yn hawdd rhagweld; fodd bynnag, disgwylwch fod yn yr adran radioleg am oddeutu 2-3 awr.

Beth sy'n digwydd wedyn?

Yn dilyn y driniaeth, cewch eich cludo yn ôl i'ch ystafell lle bydd staff nyrsio sy'n gyfarwydd â'r driniaeth yn gofalu amdanoch. Bydd staff nyrsio yn cynnal arsylwadau arferol, gan gynnwys curiad y galon a phwysedd gwaed.

A oes unrhyw beryglon?

Mae Emboleiddio'r Rhydweli Prostad yn driniaeth gweddol newydd ac mae NICE wedi barnu ei bod yn ddiogel, ond mae rhai risgiau a chymhlethdodau a all godi, fel gydag unrhyw driniaeth feddygol.

Weithiau bydd clais bach, o'r enw hematoma, ar safle twll y nodwydd i'r rhydweli ac mae hyn yn eithaf normal. Os daw hwn yn glais mawr, yna mae risg o haint, ac efallai y bydd angen gwrthfotigau.

Mae'r rhan fwyaf o gleifion yn teimlo rhywfaint o boen wedyn; mae hyn fel arfer yn ysgafn. Byddwch yn derbyn rhai tabledi lladd poen i fynd adref gyda chi ar ôl y driniaeth ac maent fel arfer yn ddigonol i reoli'r boen a'r anghysur. Bydd cathetr wrinol yn cael ei fewnosod am 48 awr i sicrhau nad oes gennych unrhyw broblem wrth basio wrin yn ystod ac yn syth ar ôl y driniaeth. Bydd hwn yn cael ei dynnu gan staff nyrsio hyfforddedig yn yr uned achos dydd wroleg ar lawr 0, Ysbyty Brenhinol Gwent. Anaml iawn y gwelwyd emboleiddio heb fod yn darged gyda difrod i'r bledren a'r rectwm mewn cyfresi tramor mwy. Mae'r risgiau hyn yn ymddangos yn fach, a thrafodir y rhain gyda chi ar adeg sicrhau eich cydsyniad i gael y driniaeth.

Sut ganlyniadau sydd?

Mae nifer fach o astudiaethau tymor canolig. Fodd bynnag, bydd dros 70% o ddynion yn sicrhau gwelliant symptomatig ar ôl PAE, gyda gostyngiad yng nghyffaint y prostad a chynnydd mewn cyfraddau llif wrinol. Gall anhawster dod o hyd i rydwelïau prostad trofaus neu fach arwain at fethiannau technegol mewn tua 10% o achosion. Mewn achos o fethiant, gellir cynnig llawdriniaeth draddodiadol TURP.

Beth yw triniaethau amgen eraill heblaw PAE?

Mae sawl dewis arall i drin BPE, a bydd eich wrolegydd eisoes wedi trafod y rhain gyda chi:

- Llawfeddygaeth all-lif y bledren yw'r driniaeth safon aur o hyd i wella symptomau wrinol, gyda llwyddiant hirdymor profedig.
- Ysbyty Brenhinol Gwent yw un o'r ychydig ganolfannau yn y DU sy'n darparu 'Holmium Laser Enucleation of the Prostate (HoLEP)', y dangoswyd ei fod yn rhagori ar TURP ar gyfer prostadau dros 80cc mewn cyfaint.
- Mae triniaethau eraill ar gyfer BPE (a dyddiadau eu cymeradwyo gan NICE os yw'n berthnasol) yn cynnwys:
 - Meddyginiaeth
 - Urolift (mewn nosod dolennau bach yn y prostad) (2015)
 - Anweddiad laser golau gwyrdd o'r prostad (2016)
 - Abladiad anwedd dŵr transwrethrol (stêm pwysedd uchel) (2018)
 - Adroddwyd hefyd am abladiad jet dŵr transwrethrol ac er nad amlygwyd unrhyw bryderon diogelwch mawr, nid yw NICE wedi cymeradwyo ei ddefnydd yn llawn eto (2018).

Mwy o wybodaeth:

British Society of Interventional Radiology (BSIR).

<https://www.bsir.org/patients/pae-patient-information-leaflet/>

National Institute of Health and Care Excellence (NICE).

<https://www.nice.org.uk/guidance/ipg611>

Manylion cyswllt:

Nyrsio radioleg

Ysbyty Brenhinol Gwent Ffôn: 01633 234327

**“Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English”.**